


## DAVIES, MORRIS (1796 - 1876), llenor, awdurdod ar emynyddiaeth, a cherddor



**Enw:** Morris Davies

**Dyddiad geni:** 1796

**Dyddiad marw:** 1876

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** llenor, awdurdod ar emynyddiaeth, a cherddor

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Barddoniaeth

**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd Hydref 1796 (bedyddiwyd 19 Hydref) ym Mhennant-igi (' Pennant Igitllt,' yn ôl cofnod yn 1761) Uchaf, Mallwyd, yn fab i dyddynnwr â'i dras o Ffestiniog. Cafodd ei addysg gyntaf mewn ysgolion ysbeidiol yn Ninas Mawddwy a Mallwyd, ac yn yr ysgol Sul. Ni hoffai waith y fferm, ac yn 1819 (gan fwriadu mynd yn ysgolfeistr) aeth i ysgol **William Owen** ('Gwilym Glan Hafren'), yn y Trallwng, am chwe mis. Wedyn, bu'n ysgolfeistr : ym Mhont Robert, Llanfyllin, Syston (Leicester), Llanfair Caereinion, a Llanfyllin drachefn, hyd 1836. Offeiriad Syston oedd **Edward Morgan** (1783 - 1869), a oedd ar y pryd yn gweithio ar ei lyfr ar **Thomas Charles**; Morris Davies a gopiodd y 150 o lythyrau **Charles** a ddefnyddiodd **Morgan**. Yn 1836, aeth yn glerc i swyddfa gyfreithiol yn Llanfyllin yr oedd **David Williams** (1799 - 1869) ynglŷn â hi, a dilynodd y swyddfa yn ei symudiadau i Borthmadog a Phwilheli. O 1844 hyd 1849 cadwai ysgol ym Mhorthmadog; ond yn 1849 symudodd i Fangor i fod yn glerc; bu farw yno 10 Medi 1876. O gofio addysg gariopio Morris Davies, a'i symudiadau mynych yn ystod 50 mlynedd, ni ellir llai na rhyfeddu at swm a rhagoriaeth ei waith llenyddol a cherddorol. Cyfieithai lyfrynnau crefyddol; sgrifennai'n ddiwyd i'r Wasg, yn enwedig i'r *Traethodydd* (y mae cryn 40 o ysgrifau ganddo yn hwnnw); cyfrannodd nifer mawr o erthyglau i'r *Gwyddoniadur* a geiriaduron cyffelyb; cyhoeddodd *Gofiant Ann Griffiths*, 1865, a *Chofiant a Gweithiau Daniel Rowland, Llangeitho*, 1876. Cyfansoddodd nifer mawr o emynau; ymddiddorai'n neilltuol mewn emynyddiaeth fel pwnc - ysgrifau arno yw llawer o'i waith yn *Y Traethodydd*; a golygodd bedwar casgliad o emynau. Yr oedd hefyd yn gerddor da, ac yn 1860 cyhoeddodd gasgliad o donau, *Jeduthun*, 10 ohonynt ganddo ef ei hunan - ar hwn, gweler **R. D. Griffith**, *Hanes Canu Cynulleidfaol Cymru*, 1948, 170-1.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

Daniel Rowlands, *Y Traethodydd*, 1877, 217-44, 359-75 (yn helaeth iawn, ac yn cynnwys atgofion Morris Davies ei hunan)

*Y Geninen* (Gŵyl Ddewi), 1891, 30-7

J. Thickers, *Emynau a'u Hawduriad* (1945), 1945

### Gweithiau

Daniel Rowlands, Morris Davies (gol.), *Deuddeg pregeth ar bynciau ymarferol... hefyd cofiant yr awdwr, ynghydag attodiad, yn cynnwys gweddillion amrywiol o'i waith, a marwnadau coffadwriaethol iddo* (Dolgelau 1876)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 86384667

Wikidata: Q20733965

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jenkins, R. T., (1953). DAVIES, MORRIS (1796 - 1876), llenor, awdurdod ar emynyddiaeth, a cherddor. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-MOR-1796>



Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Yn ddiwydwr gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government